# ATODIAD 2 – GWEITHGARWCH CUDDWYLIO

## (Darn allan o'r cod ymarfer diwygiedig ar Guddwylio a Tharfu ar Eiddo)

3.10 Mae twf y rhyngrwyd, a'r ffaith fod cymaint o wybodaeth ar gael ar-lein erbyn hyn, yn cyflwyno cyfleoedd newydd i awdurdodau cyhoeddus wylio neu gasglu gwybodaeth all eu helpu i atal neu ganfod troseddu neu gyflwyno swyddogaethau statudol eraill, yn ogystal â deall ac ymgysylltu â'r cyhoeddi maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'n bwysig fod awdurdodau cyhoeddus yn gallu gwneud defnydd llawn a chyfreithlon o'r wybodaeth ar gyfer eu dibenion statudol. Gellir cael gafael ar lawer o'r wybodaeth heb fod angen awdurdodiad RIPA; ni ddylai defnyddio'r rhyngrwyd cyn ymchwiliad greu ystyriaethau preifatrwydd fel arfer. Ond os yw astudio presenoldeb ar-lein unigolyn yn mynd yn arferiad cyson, neu pan mae bwriad defnyddio a chofnodi deunydd a gafwyd o unrhyw archwiliad mewn ffordd allai greu ystyriaethau preifatrwydd, efallai y bydd angen ystyried awdurdodiadau RIPA. Pwrpas y canllawiau canlynol yw cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i benderfynu pryd allai awdurdodiadau o'r fath fod yn briodol.

3.11 Gellir defnyddio'r rhyngrwyd i gasglu gwybodaeth a/neu yn offeryn gwyliadwriaeth. Pan gynhelir monitro neu ymchwiliad ar-lein yn ddirgel at ddibenion ymchwiliad neu weithgarwch penodol a phan mae'n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson neu grŵp, dylid ceisio awdurdodiad ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig, fel y nodir mewn rhan arall o'r cod hwn. Pan mae person yn gweithredu ar ran awdurdod cyhoeddus yn bwriadu ymgysylltu ag eraill ar-lein heb ddatgelu pwy ydynt, efallai y bydd angen awdurdodiad CHIS (mae paragraffau 4.10 i 4.16 y cod ymarfer ar Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol yn cynnig mwy o wybodaeth am lle y gall awdurdodiad CHIS fod ar gael ar gyfer gweithgarwch ar-lein).

3.12 Wrth benderfynu a ddylid ystyried gwyliadwriaeth ar-lein yn weithgarwch cudd, dylid ystyried pa mor debygol y mae bod y gwrthrych(au) yn gwybod fod neu y gall y wyliadwriaeth fod yn digwydd. Gellid ystyried fod defnyddio'r rhyngrwyd ynddo'i hun yn gyfystyr â defnyddio techneg wyliadwriaeth sy'n cael ei defnyddio i sicrhau nad yw'r gwrthrych yn ymwybodol ohoni, hyd yn oed os na chymerir unrhyw gamau pellach i guddio'r gweithgarwch. Ar y llaw arall, pan mae awdurdod cyhoeddus wedi cymryd camau rhesymol i roi gwybod i'r cyhoedd neu i unigolion penodol fod neu y gall y wyliadwriaeth fod yn digwydd, efallai y gellid ystyried y gweithgarwch yn agored ac ni fydd awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig ar gael fel arfer.

3.13 Fel y nodir ym mharagraff 3.14 isod, gan ddibynnu ar natur y llwyfan ar-lein, gallai fod disgwyl llai o breifatrwydd pan mae gwybodaeth am berson neu grŵp yn cael ei darparu'n agored ac yn gyhoeddus, er bod ystyriaethau preifatrwydd yn dal yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau. Y rheswm am hynny yw mai'r bwriad wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath oedd na ddylid ei defnyddio at bwrpas cudd megis gweithgarwch ymchwiliadol. Mae hynny'n wir os yw defnyddiwr gwefan neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol wedi ceisio diogelu gwybodaeth o'r fath ai peidio, trwy gyfyngu gallu pobl i'w gweld trwy ddefnyddio gosodiadau preifatrwydd.

3.14 Pan roddir gwybodaeth am unigolyn ar gronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd, megis er enghraifft y cyfeiriadur ffôn neu Dŷ'r Cwmnïau, sy'n cael ei defnyddio'n gyffredin ac y gwyddys ei bod ar gael i bawb, mae'n annhebyg y bydd ganddynt unrhyw ddisgwyliad rhesymol y bydd eu preifatrwydd yn drech na'r monitro a wneir ar y

wybodaeth honno gan awdurdodau cyhoeddus. Mae unigolion sy'n gosod gwybodaeth ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau eraill er mwyn danfon negeseuon i gynulleidfa eang hefyd yn llai tebygol o ddisgwyl yn rhesymol y cânt breifatrwydd o ran y wybodaeth honno.

3.15 Mae a yw awdurdod cyhoeddus yn tarfu ar fywyd preifat person yn cynnwys ystyried natur gweithgarwch yr awdurdod cyhoeddus o ran y wybodaeth honno. Mae'n annhebyg fod cadw golwg ar wefannau o'r fath (h.y. archwiliad cychwynnol er mwyn gweld a yw'r wefan neu ei chynnwys o ddiddordeb) yn tarfu ar ddisgwyliad rhesymol person y dylid diogelu ei b/phreifatrwydd ac nid yw felly'n debygol o alw am awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig. Ond pan mae awdurdod cyhoeddus yn mynd ati'n systematig i gasglu a chofnodi gwybodaeth am berson neu grŵp arbennig, dylid ystyried awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig. Mae'r ystyriaethau hyn yn berthnasol waeth pryd gafodd y wybodaeth ei rhannu ar-lein.

***Enghraifft 1:*** *Mae heddwas yn cynnal chwiliad syml o'r rhyngrwyd am enw, cyfeiriad neu rif ffôn i ddarganfod a oes gan wrthrych o ddiddordeb bresenoldeb ar-lein. Mae'n annhebyg y bydd angen awdurdodiad ar gyfer hynny. Fodd bynnag, os penderfynir, ar ôl darganfod proffil neu hunaniaeth cyfryngau cymdeithasol yr unigolyn, y dylid ei fonitro neu gymryd gwybodaeth allan ohono i'w chadw mewn cofnod oherwydd ei bod yn berthnasol i ymchwiliad neu weithgarwch, yna dylid ystyried awdurdodiad.*
***Enghraifft 2:*** *Mae swyddog tollau yn cynnal archwiliad cychwynnol o broffil ar-lein unigolyn i weld a yw'n berthnasol i ymchwiliad. Mae'n annhebyg y bydd angen awdurdodiad ar gyfer hynny. Fodd bynnag, os penderfynir yn ystod yr ymweliad hwnnw y dylid tynnu allan a chofnodi gwybodaeth i sefydlu proffil gan gynnwys gwybodaeth megis hunaniaeth, patrwm bywyd, arferion, bwriadau neu gysylltiadau, efallai y dylid trefnu awdurdodiad ar gyfer yr ymweliad unigol hwnnw hyd yn oed. (Fel y nodir yn y paragraff canlynol, gallai pwrpas yr ymweliad fod yn berthnasol o ran a ddylid gwneud cais am awdurdodiad.)*
***Enghraifft 3:*** *Mae awdurdod cyhoeddus yn gwneud gwaith monitro cyffredinol ar y rhyngrwyd mewn amgylchiadau lle nad yw'n rhan o ymchwiliad neu weithgarwch penodol, parhaus i adnabod themâu, tueddiadau, arwyddion posib o ymddygiad troseddol neu ffactorau eraill all ddylanwadu ar strategaethau neu gynlluniau gweithredol. Nid oes angen awdurdodiad RIPA ar gyfer hynny. Fodd bynnag, pan mae'r gweithgarwch hwn yn arwain at ddod o hyd i wrthrychau o ddiddordeb nad oeddent yn hysbys ynghynt, unwaith y penderfynir monitro'r unigolion hynny fel rhan o weithgarwch neu ymchwiliad parhaus, dylid ystyried awdurdodiad.*

3.16 Er mwyn penderfynu a ddylid gwneud cais am awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig i gael gafael ar wybodaeth ar wefan fel rhan o ymchwiliad neu weithgarwch cudd, mae'n rhaid edrych ar bwrpas gwneud hynny a swm a sylwedd y gweithgarwch ar-lein y bwriedir ei gyflawni. Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a oes angen awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig mae:

- A yw'r ymchwiliad neu ymchwil yn cael ei gyfeirio at unigolyn neu sefydliad;
- A yw'n debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson neu grŵp o bobl;
- A yw'n debygol o gynnwys mynd i wefannau ar y rhyngrwyd i adeiladu casgliad o wybodaeth neu broffil;

- A fydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei chofnodi a'i chadw;
- A yw'r wybodaeth yn debygol o ddarparu patrwm o ffordd o fyw i'r sylwedydd;
- A yw'r wybodaeth yn cael ei chyfuno gyda ffynonellau gwybodaeth eraill, sef gwybodaeth ynghylch bywyd preifat person;
- A yw'r ymchwiliad neu ymchwil yn rhan o ddarn o waith parhaus sy'n cynnwys gwylio'r gwrthrych(au) dro ar ôl tro;
- A yw'n debygol o olygu adnabod a chofnodi gwybodaeth am drydydd partïon, megis cyfeillion ac aelodau teulu gwrthrych y sylw, neu wybodaeth a ddanfonwyd gan drydydd partïon, all gynnwys gwybodaeth breifat ac sydd felly'n ymyrraeth anuniongyrchol ar breifatrwydd y trydydd partïon hyn.

3.17 Efallai y bydd angen i chwiliadau rhyngrwyd a gynhaliwyd gan drydydd parti ar ran awdurdod cyhoeddus, neu trwy ddefnyddio offeryn chwilio, gael awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig o hyd (gweler paragraff 4.32).

***Enghraifft:*** *Ni fydd ymchwilwyr mewn awdurdod cyhoeddus sy'n defnyddio offerynnau monitro awtomataidd i chwilio am derminoleg gyffredin a ddefnyddir at ddibenion anghyfreithlon yn gorfod cael awdurdodiad gwyliadwriaeth gyfeiriedig fel arfer. Yn yr un modd, nid yw dadansoddi data gan awdurdodau cyhoeddus naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti at ddibenion rhagfynegol (e.e. adnabod ardaloedd troseddu neu ddadansoddi tueddiadau) yn wyliadwriaeth gyfeiriedig fel arfer. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n debyg y bydd y sylw i unigolion neu grwpiau yn ddigon cyffredinol heb ddod o fewn y diffiniad o wyliadwriaeth. Ond dylai swyddogion fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall ymchwil thematig bras esblygu, ac y gall awdurdodiad fod yn briodol pan mae'n dechrau rhoi sylw i unigolion neu grwpiau penodol. Os defnyddir enwau penodol neu ffyrdd eraill o adnabod unigolyn neu grŵp ar gyfer y chwiliad neu ddadansoddiad, dylid ystyried awdurdodiad.*

**Wele isod ddolen i'r Cod Ymarfer llawn**

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf

**Wele isod ddolenni i bolisïau'r Cyngor ar Gyfryngau Cymdeithasol a Defnyddio'r Rhyngrwyd**

http://intranet/media/654947/social-media-policy-2018.pdf

http://mewnrwyd/media/491191/polisi-defnyddior-e-bost-a-monitro-hynny-v2-email-usage-welsh.pdf